WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Adroddiad Archwilio Blynyddol 2011

# Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr

**Cyhoeddwyd:** Rhagfyr 2011

**Cyfeirnod y ddogfen:** 588A2011

# Statws yr adroddiad

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Mike Usher, Matthew Edwards a Mandy Townsend ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Adroddiad cryno** | 4 |
| **Adroddiad manwl** | |
| Yr adroddiad hwn | 6 |
| Adran 1: Archwilio cyfrifon | 7 |
| Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2010-11 y Bwrdd Iechyd, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny | 7 |
| Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau | 12 |
| Yn ôl rhagolygon y Bwrdd Iechyd, bydd wedi mantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon er gwaethaf y ffaith ei fod wedi arbed llai na'r hyn a ragamcanwyd a'i fod wedi gwario mwy na'r hyn a gynlluniwyd | 12 |
| Yn gyffredinol, gwnaed cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu a nodwyd yn fy Asesiad Strwythuredig yn 2010 ond erys heriau penodol o hyd | 13 |
| Etifeddodd y Bwrdd Iechyd drefniadau cwbl wahanol o ran y contract meddygon ymgynghorol a phrosesau cynllunio swyddi aneffeithiol mewn rhannau o'r sefydliad, ond bwriedir i drefniadau newydd fynd i'r afael â hyn | 14 |
| Mae perfformiad o ran y theatr ac achosion dydd yn amrywio yn y Bwrdd Iechyd ac mae angen cymryd camau penodol i sicrhau bod newidiadau yn digwydd yn gyflymach | 15 |
| Cymerwyd camau i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd mewn nifer o adolygiadau archwilio perfformiad blaenorol ond mae angen gwneud cynnydd pellach mewn sawl maes | 16 |
| **Atodiadau** | |
| Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf | 19 |
| Ffi archwilio | 21 |

# Adroddiad cryno

**1.** Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o'r gwaith archwilio a wnaed gennyf ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2011.

**2.** Mae'r gwaith rwyf wedi'i wneud yn y Bwrdd Iechyd yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

**3.** Mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir rhagor o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyhoeddwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hyn a chytunir arnynt gyda swyddogion ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf i'w gweld yn Atodiad 1.

**4.** Crynhoir y negeseuon allweddol o'm gwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

## Archwilio cyfrifon

**5.** Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2010-11 y Bwrdd Iechyd, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny. Ymhlith y rhain mae parhau i ddatblygu prosesau i ddangos yn llawn bod costau staff a gyfalafwyd wedi'u cyfalafu'n briodol a datblygu systemau, fel holl gyrff eraill y GIG yng Nghymru, i nodi gwerth elfennau o eiddo, offer a chyfarpar a ddisodlwyd a rhoi cyfrif amdanynt fel mater o drefn.

**6.** Deuthum hefyd i'r casgliadau canlynol:

- paratowyd cyfrifon y Bwrdd Iechyd yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol;
- roedd gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol;
- roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli a'u gweithredu'n briodol, yn ôl y bwriad, er i ni nodi rhywfaint o le i wella rheolaethau'r gyflogres.

**7.** Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2010-11, drwy gyfuniad o gyflawni cynlluniau arbedion a chael arian anghylchol ychwanegol gwerth £16.7 miliwn gan Lywodraeth Cymru.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

**8.** Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau. Mae fy ngwaith wedi cynnwys mesur y cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu ymhellach a nodwyd yn yr Asesiad Strwythuredig y llynedd. Cynhaliwyd adolygiadau archwilio perfformiad hefyd ar feysydd penodol lle darperir gwasanaethau. Mae'r gwaith hwn wedi fy arwain at y casgliadau canlynol:

- er nad yw'r holl arbedion o ran costau yn cael eu cyflawni eto, mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i ragweld y bydd wedi mantoli'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon;
- yn gyffredinol, gwnaed cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu a nodwyd yn fy Asesiad Strwythuredig yn 2010 ond erys heriau penodol o hyd;
- etifeddodd y Bwrdd Iechyd drefniadau cwbl wahanol o ran y contract meddygon ymgynghorol a phrosesau cynllunio swyddi aneffeithiol mewn rhannau o'r sefydliad, ond bwriedir i drefniadau newydd fynd i'r afael â hyn;
- mae perfformiad o ran y theatr ac achosion dydd yn amrywio yn y Bwrdd Iechyd ac mae angen cymryd camau penodol i sicrhau bod newidiadau yn digwydd yn gyflymach;
- cymerwyd camau i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd mewn nifer o adolygiadau archwilio perfformiad blaenorol ond mae angen gwneud cynnydd pellach mewn sawl maes.

## Cytuno ar fy nghanfyddiadau gyda'r Tîm Gweithredol

**9.** Cafodd yr adroddiad hwn ei gyflwyno i'r Cyfarwyddwr Llywodraethu a Chyfathrebu, a'r Tîm Gweithredol, ar 27 Tachwedd 2011. Cafodd ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar 8 Rhagfyr ac wedyn i'r Bwrdd gan roi copi i bob aelod o'r Bwrdd Iechyd. Anogwn y Bwrdd Iechyd i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, bydd hefyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru (www.wao.gov.uk).

**10.** Hoffwn ddiolch o galon i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

## Yr adroddiad hwn

**11.** Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau Bwrdd y Bwrdd Iechyd yn nodi canfyddiadau allweddol y gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng mis Ebrill 2011 a mis Tachwedd 2011.

**12.** Cyflawnir fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- **a)** archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u cyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
- **b)** bodloni fy hun yr aed i'r gwariant y mae'r cyfrifon yn ymwneud ag ef yn gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdodau sy'n ei lywodraethu;
- **c)** bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

**13.** Mewn perthynas ag (c), rwyf wedi dod i gasgliadau pendant, neu fel arall, gan ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd;
- gwaith a wnaed fel rhan o'm Hasesiad Strwythuredig diweddaraf o'r Bwrdd Iechyd, a archwiliodd y trefniadau o ran rheoli ariannol, llywodraethu ac atebolrwydd a rheoli adnoddau;
- hunanasesiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn modiwl Llywodraethu ac Atebolrwydd y Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru;
- archwiliadau o berfformiad a gynhaliwyd yn y Bwrdd Iechyd;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle maent yn berthnasol i'm cyfrifoldebau;
- gwaith arall, megis ymarferion paru data ac ardystio hawliadau a ffurflenni.

**14.** Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn Atodiad 1.

**15.** Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:

- archwilio cyfrifon;
- trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau.

**16.** Yn olaf, rhydd Atodiad 2 yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i dalu am gostau gwirioneddol fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, ynghyd â'r ffi wreiddiol a nodwyd yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad.

# Adran 1: Archwilio cyfrifon

**17.** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2010-11. Mae'r sefydliad yn dangos ei berfformiad ariannol drwy'r datganiadau hyn ac yn nodi ei gostau gweithredu net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lifau arian parod. Mae paratoi datganiadau ariannol sefydliad yn rhan hanfodol o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.

### Fy nghyfrifoldebau

**18.** Wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:

- a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i incwm a'i wariant am y cyfnod dan sylw;
- a ydynt yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol - a achoswyd drwy dwyll neu wall;
- a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
- a yw'r rhan honno o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth sydd i'w archwilio wedi'i pharatoi'n briodol;
- rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm.

**19.** Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).

**20.** Wrth wneud y gwaith hwn, mae archwilwyr hefyd wedi ystyried digonolrwydd y canlynol:

- amgylchedd rheolaeth fewnol y Bwrdd Iechyd;
- systemau ariannol ar gyfer llunio'r datganiadau ariannol.

## Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2010-11 y Bwrdd Iechyd, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny

### Paratowyd datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2009-10 yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol

**21.** Cyflwynwyd datganiadau ariannol drafft y Bwrdd Iechyd cyn y terfyn amser, sef 4 Mai 2011. Er gwaethaf yr amserlen heriol, cafwyd gennym fod y wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiadau ariannol Gofal Iechyd a Chronfa Risg Cymru yn berthnasol, yn ddibynadwy, yn gymaradwy, yn berthnasol ac yn hawdd ei deall. Paratowyd y

datganiadau ariannol drafft i safon uchel ac ar y cyfan fe'u hategwyd gan bapurau gwaith cynhwysfawr. Roedd hyn yn gyflawniad sylweddol gan fod yr amserlen a bennwyd gan Lywodraeth Cymru wedi golygu bod llai o amser i lunio ac archwilio'r datganiadau ariannol, gan roi cryn dipyn o bwysau ychwanegol ar y tîm cyllid. Roedd tystiolaeth glir hefyd fod y datganiadau ariannol wedi bod yn destun prosesau sicrhau ansawdd, gan gynnwys adolygiad dadansoddol.

**22.** Yn unol â Safon Archwilio Ryngwladol 260 (ISA 260) mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynodd fy Arweinydd Ymgysylltu ar gyfer yr Archwiliad Ariannol adroddiad ar y materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd ar 8 Mehefin 2011. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r materion allweddol a nodir yn yr adroddiad hwnnw.

### Arddangosyn 1: Materion a nodwyd yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Hepgoriadau o'r datganiadau ariannol drafft | Profodd y Bwrdd Iechyd beth oedi wrth lunio'r eitemau canlynol, nas rhoddwyd i ni tan yn ddiweddarach yn y broses archwilio:<br>• Adroddiad ar Gydnabyddiaeth (cyflwynwyd i'w archwilio ar 18 Mai 2011);<br>• Nodyn 31 'Cyllidebau Cyfunol' (cyflwynwyd i'w archwilio ar 23 Mai 2011, gan fod y Bwrdd Iechyd yn aros am wybodaeth gan sefydliadau partner).<br>Rhoddodd y Bwrdd Iechyd wybod i ni fod oedi wrth baratoi'r datganiadau ariannol cyfunol (yn ymgorffori'r datganiadau ariannol Gofal Iechyd a Chronfa Risg Cymru), nas cyflwynwyd i'w harchwilio tan 18 Mai 2011. Y rheswm dros yr oedi hwn oedd oherwydd bod y Bwrdd Iechyd yn aros am ganllawiau gan Lywodraeth Cymru ar fformat a chynnwys y datganiad cyfunol. Gan ein bod wedi cael gwybod am yr oedi gan y Bwrdd Iechyd yn amserol, roedd yn bosibl i ni addasu ein rhaglen waith yn briodol, gan felly osgoi'r risg o fethu â chwblhau'r amserlen waith gyffredinol. |
| Cyflogau a gyfalefir | Er gwaethaf rhai gwelliannau ers 2009-10, nid oedd yn bosibl i'r Bwrdd Iechyd ddangos bod ei holl gostau staff a gyfalafwyd yn cydymffurfio â gofynion Safon Gyfrifyddu Ryngwladol (IAS) 16. Cyfanswm y cyflogau a gyfalafwyd ar 31 Mawrth 2011 oedd £1.88 miliwn. Gwnaeth y Bwrdd Iechyd gynnydd yn ystod y flwyddyn o ran datblygu prosesau mwy cadarn i gefnogi'r sail dros gyfalafu costau staff. Er gwaethaf hyn, nid oedd modd dangos bod costau cyflogeion o £164,000 (o fewn y cyfanswm o £1.88 miliwn) yn uniongyrchol briodoladwy i asedau penodol ac felly nid oedd yn bosibl i ni ddod i gasgliad llawn ynghylch priodoldeb cyfalafu'r costau hyn. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cadarnhau i ni ei fod yn dal i ddatblygu ei brosesau er mwyn dangos yn llawn bod costau wedi'u cyfalafu'n briodol. |

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Cofnodi segmentaidd | O dan Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol (IFRS) 8, mae'n ofynnol rhoi gwybodaeth ariannol 'segmentaidd' mewn cyfrifon a gyhoeddir, yn seiliedig ar y ffordd y caiff gwybodaeth ei chyflwyno'n rheolaidd i uwch reolwyr i ategu eu penderfyniadau.<br>Y llynedd, gwnaethom nodi nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi ystyried y gofyniad hwn ddigon wrth baratoi ei gyfrifon drafft i'w harchwilio. Eleni, yn unol â chanllawiau gwell gan Lywodraeth Cymru, lluniodd y Bwrdd Iechyd resymeg ysgrifenedig i ategu ei benderfyniad i ddatgelu dwy elfen fusnes: Gofal Iechyd a Chronfa Risg Cymru. Er ein bod, ar y cyfan, yn fodlon ar y rhesymeg hon nodwn, yn wahanol i fyrddau iechyd eraill yng Nghymru, fod y Bwrdd Iechyd yn rhoi gwybodaeth i'w uwch reolwyr a gaiff ei dadansoddi gan Grwpiau Rhaglenni Clinigol. Felly, os yw'n dymuno, gall y Bwrdd Iechyd roi gwybodaeth ychwanegol i'r sawl sy'n defnyddio ei gyfrifon cyhoeddedig am weithgareddau pob Grŵp Rhaglenni Clinigol. |
| Dadgydnabod asedau | Nid oes systemau digonol ar waith i nodi a rhoi cyfrif am werth hen eiddo, offer a chyfarpar a gaiff eu cyfnewid am rai newydd, yn unol â gofynion IAS 16. Yn unol â'r safon hon, pan gaiff rhannau o asedau eu newid, mae angen didynnu unrhyw werthoedd sy'n weddill ar gyfer yr asedau a newidiwyd o werthoedd yr eiddo (dadgydnabyddedig) a chydnabod unrhyw elw neu golled yn y cyfrif refeniw. Roedd hwn yn ofyniad newydd o 2009-10 ymlaen. Ar hyn o bryd, nid oes gan y Bwrdd Iechyd, nac unrhyw gyrff eraill y GIG yng Nghymru, systemau ar waith i nodi'r cyfryw werthoedd fel mater o drefn. |

**23.** Fel rhan o'm harchwiliad ariannol, gwneuthum hefyd gynnal yr adolygiadau canlynol:

- Ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan - deuthum i'r casgliad fod gwybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2011, a pharatowyd y ffurflen yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.
- Datganiadau Ariannol Cryno a'r Adroddiad Blynyddol - deuthum i'r casgliad fod y datganiadau cryno yn gyson â'r datganiadau ariannol llawn.
- Datganiadau ariannol Cronfeydd a Ddelir ar Ymddiriedolaeth 2010-11 - Wynebodd y Bwrdd Iechyd nifer o heriau yn sgîl cyfuno'r tair cronfa elusennol flaenorol ac roedd angen gwneud cryn dipyn o waith yn ychwanegol at y broses safonol o baratoi datganiadau ariannol. Mae'n bleser nodi bod y Bwrdd Iechyd wedi llwyddo i oresgyn yr heriau hyn ac roedd y datganiadau ariannol a'r papurau gwaith cysylltiedig a gyflwynwyd i'w harchwilio o safon dda. Roedd yn fwriad gennyf gyhoeddi barn ddiamod ar 21 Tachwedd 2011, ond bu'n rhaid aros am na lwyddodd pwyllgor Cronfeydd Elusennol y Bwrdd Iechyd ar 14 Tachwedd

i gymeradwyo'r datganiadau ariannol archwiliedig, gan nad oedd y cyfarfod yn gworwm. Mae bellach yn fwriad gan y Bwrdd Iechyd i gymeradwyo'r datganiadau ariannol yn y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol nesaf ar 16 Chwefror 2012, a byddaf yn cyhoeddi fy marn yn fuan wedyn.

### Roedd gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol

**24.** Ni nodwyd unrhyw wendidau perthnasol yn eich amgylchedd rheolaeth fewnol. At hynny, rhoddodd 'Datganiad Sicrwydd ac Adroddiad Blynyddol' y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 'sicrwydd digonol' i'r Bwrdd Iechyd.
Mae'r farn hon yn adlewyrchu system rheolaeth fewnol gadarn ar y cyfan, a gynlluniwyd i gyflawni amcanion y sefydliad, a bod rheolaethau yn cael eu cymhwyso'n gyson ar y cyfan. Fodd bynnag, mae rhai gwendidau yng nghynllun rheolaethau neu'r ffaith na chânt eu cymhwyso'n gyson yn peri risg i'r broses o gyflawni amcan penodol gan gynnwys:

- sefydlu rheolaethau cadarn i reoli asedau a ddefnyddir ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd;
- creu amgylchedd rheolaeth cadarn i reoli ac adolygu'r broses gwneud cais am ofal iechyd parhaus/gofal nyrsio a ariennir gan gynnwys ceisiadau ôl-weithredol a gyflwynwyd i'r Bwrdd Iechyd i'w hystyried.

**25.** Daeth fy adolygiad o ddiswyddiadau nifer o gyn-Gyfarwyddwyr Cyllid o'r cyrff rhagflaenol ar y cynllun Cyflogaeth Amgen i'r casgliad bod y Bwrdd Iechyd wedi ceisio cyngor cyfreithiol perthnasol a'i gael. Cadwyd cofnodion priodol fel tystiolaeth o'r penderfyniadau a wnaed i ddangos eu bod wedi cael eu gwneud yn unol â'i fframwaith llywodraethu corfforaethol, cynllun dirprwyo a rheolau sefydlog. Hefyd, rhoddwyd cyfrif am y taliadau'n llawn yn natganiadau ariannol 2010-11 ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol.

**26.** Gwneuthum hefyd adolygu sampl o unigolion a adawodd y Bwrdd Iechyd yn 2010-11 o dan y Cynllun Diswyddo Cynnar Gwirfoddol. Deuthum i'r casgliad fod y taliadau a adolygwyd wedi'u gwneud yn unol â Chynllun Rhyddhau Cynnar Gwirfoddol 2010 GIG Cymru a chadwyd cofnodion cyflawn yn unol â gofynion y cynllun. Hefyd, deuthum i'r casgliad y rhoddwyd cyfrif llawn am y taliadau yn natganiadau ariannol 2010-11 a'u bod yn gywir ym mhob ffordd berthnasol.

### Roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli a'u gweithredu'n briodol, yn ôl y bwriad, er i ni nodi bod peth lle i wella rheolaethau'r gyflogres

**27.** Ni nodais unrhyw wendidau perthnasol yn systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd a fyddai'n effeithio ar fy marn. Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd gryn dipyn o waith yn ystod y flwyddyn i gyfuno a rhesymoli ei systemau ariannol a chyfrifyddu. Yn arbennig, llwyddodd i gyfuno'r naw cyfriflyfr a ddefnyddiwyd yn 2009-10, gan

adlewyrchu'r trefniadau etifeddiaeth, yn un. Hefyd, llwyddodd y Bwrdd Iechyd i resymoli'r tair cofrestr asedau sefydlog a ddefnyddiwyd gan ei amryw gyrff rhagflaenol yn un gofrestr unedig, a nodwyd ei bod yn gyflawn ac yn gywir ym mhob ffordd berthnasol.

**28.** Roedd nifer o faterion manwl yn codi o'm gwaith archwilio ariannol a chyflwynwyd adroddiad arnynt i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Medi 2011. Mae'r rhain yn cynnwys materion y cyfeirir atynt yn Arddangosyn 1 uchod a nifer o faterion eraill sy'n ymwneud â'r gyflogres sy'n rhan o Wasanaethau a Rennir Cymru Gyfan, fel y nodir yn Arddangosyn 2.

### Arddangosyn 2: Materion eraill sy'n ymwneud â systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Cysoni'r gyflogres | Tra bod y costau treth incwm a nawdd cymdeithasol a nodwyd yn y brif system gyfrifyddu yn gyson â manylion cyflogres a gynhyrchwyd gan y system Cofnodion Staff Electronig, nid felly gyflog gros. Dylid cysoni costau cyflogau fel rhan o'r gwaith cysoni misol ar y cyfriflyfr. |
| Gordaliadau'r gyflogres | Roedd nifer sylweddol o ordaliadau i gyflogeion yn ystod y flwyddyn o hyd (cyn-gyflogeion a chyflogeion presennol). Cyfanswm y gordaliadau o'r gyflogres a oedd yn weddill ar ddiwedd mis Hydref 2011 oedd £472,405. Cadarnhaodd adran y gyflogres mai'r prif reswm dros hyn oedd y ffaith bod adrannau wedi methu â hysbysu tîm y gyflogres o newidiadau staffio'n amserol ac mewn rhai achosion ni chafodd tîm y gyflogres wybod nes bod y cyflogai wedi gadael. |

**29.** Yn ogystal, nododd y gwasanaeth Archwilio Mewnol nifer o wendidau mewn systemau y mae angen i reolwyr weithredu arnynt yn barhaus. Datblygwyd cynlluniau gweithredu i reolwyr er mwyn atgyfnerthu'r gwendidau rheoli a nodwyd yn yr adroddiadau hyn, ac mae'r Pwyllgor Archwilio yn craffu ar y cynnydd a wneir.

## Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i gyflawni balans ariannol ar ddiwedd 2010-11, o ganlyniad i gyllid anghylchol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ac arbedion sy'n rhyddhau arian parod

**30.** Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei dargedau ariannol statudol yn 2010-11, gydag arbedion o £74.9 miliwn yn cael eu cofnodi ar gyfer y flwyddyn. Hefyd, cafodd y Bwrdd Iechyd arian anghylchol ychwanegol gwerth £16.7 miliwn oddi wrth Lywodraeth Cymru. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi mai'r rheswm dros gael yr arian ychwanegol oedd bodloni lefelau uchel o weithgarwch cleifion o ganlyniad i'r tywydd a'r ffliw.

## Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

**31.** Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- adolygu trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys y cynnydd sy'n cael ei wneud i gyflawni cynlluniau arbed costau a'u cyfraniad at y broses o gyflawni balans ariannol;
- asesu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd o ran mynd i'r afael â'r 'meysydd i'w datblygu' a nodwyd gennym yn yr Asesiad Strwythuredig y llynedd;
- edrych ar effeithiolrwydd trefniadau ar gyfer contract y meddygon ymgynghorol, gan gynnwys cynllunio swyddi;
- edrych ar berfformiad y Bwrdd Iechyd o ran y defnydd o theatrau llawdriniaethau a chyfraddau llawdriniaethau dydd;
- asesu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd o ran mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn sgîl gwaith archwilio blaenorol ar Wasanaethau Mamolaeth, y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd ar gyfer Meddygon Iau, Gofal heb ei Drefnu, a Gwasanaethau Cleifion Allanol.

**32.** Crynhoir prif ganfyddiadau'r gwaith hwn o dan y penawdau canlynol.

### Yn ôl rhagolygon y Bwrdd Iechyd, bydd wedi mantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon er gwaethaf y ffaith ei fod wedi arbed llai na'r hyn a ragamcanwyd a'i fod wedi gwario mwy na'r hyn a gynlluniwyd

**33.** Er mwyn mantoli'r gyllideb ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2011-12, mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd arbed £70.9 miliwn mewn costau. Ym mis Hydref 2011, roedd cynlluniau ar waith i arbed £57.7 miliwn. Er gwaethaf hyn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi ei fod yn dal i ragweld y bydd wedi mantoli'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2012. Cafodd y Bwrdd Iechyd arian anghylchol ychwanegol gwerth £17 miliwn gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2011, ond mae mantoli'r gyllideb ar gyfer diwedd y flwyddyn yn dibynnu'n fawr ar nodi cynlluniau arbed ychwanegol.

**34.** Ar 31 Hydref 2011 nododd y Bwrdd Iechyd wariant gwirioneddol cronnol a oedd uwchlaw'r gwariant arfaethedig tua £6.2 miliwn neu 0.9 y cant. Yn ôl y Bwrdd Iechyd mae ymdrechion parhaus yn cael eu gwneud i gau'r bwlch ar fyrder, heb gael unrhyw effaith niweidiol ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau.

35. Dros yr wythnosau diwethaf, nodwyd cynlluniau newydd ar gyfer arbed costau a rhagwelir y gellir cyflawni £70.9 miliwn o arbedion yn ystod y flwyddyn o hyd. Fodd bynnag, erys yr arbedion rhagamcanol yn heriol iawn ac o bosibl maent yn afrealistig o ystyried nad yw cynlluniau arbed mewn rhai meysydd wedi'u datblygu ddigon tra bod eraill yn dibynnu'n fawr ar ailgynllunio gwasanaethau a'r cyfleoedd sy'n deillio o hynny i newid y gweithlu.

## Yn gyffredinol, gwnaed cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu a nodwyd yn fy Asesiad Strwythuredig yn 2010 ond erys heriau penodol o hyd

36. Rwyf wedi asesu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd o ran mynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu a nodwyd yn fy Asesiad Strwythuredig y llynedd ac rwyf wedi dod i'r casgliad bod cynnydd da wedi'i wneud ar y cyfan er bod heriau penodol o hyd.

### Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i gryfhau ei drefniadau llywodraethu ond mae angen gwneud mwy o gynnydd mewn nifer fechan o feysydd allweddol o hyd

37. Mae fy adolygiad o'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd i gryfhau ei drefniadau llywodraethu wedi gallu dangos y cynnydd cadarnhaol canlynol:

- mae cyfeiriad strategol clir y Bwrdd Iechyd wedi'i adlewyrchu yn ei gynlluniau clinigol;
- mae'r strwythur sefydliadol yn adlewyrchu ffocws y Bwrdd Iechyd ar arweinyddiaeth glinigol, ond nid yw'r broses ailstrwythuro wedi'i chwblhau'n llawn eto felly mae rhai swyddi gweithredol yn interim o hyd;
- mae'r amgylchedd rheolaeth fewnol yn dal i aeddfedu ac fe'i cefnogir gan gyflwyniad fframwaith sicrwydd bwrdd ffurfiol, dull gweithredu datblygol mewn perthynas â rheoli risg a rhaniadau cliriach o ran cyfrifoldebau rhwng is-bwyllgorau'r Bwrdd;
- mae tystiolaeth o ddull gweithredu mwy cyfannol o ran rheoli perfformiad a mwy o adroddiadau ar berfformiad ym maes balansau.

38. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy o welliannau i'r trefniadau hyn er mwyn sicrhau'r canlynol:

- bod trefniadau rheoli risg yn dod yn rhan lawn o Grwpiau Rhaglenni Clinigol drwy gwblhau hyfforddiant i'w staff a sicrhau cysondeb ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd;
- bod archwiliadau clinigol yn dod yn rhan fwy effeithiol o fframwaith sicrwydd y Bwrdd, drwy ddatblygu strategaeth ffurfiol ac adroddiad blynyddol, a chasglu tystiolaeth i ddangos y cysylltiadau clir â risg a gwelliant, a gwelliant a dysgu sefydliadol o ganlyniad i archwiliadau clinigol;
- bod y trefniadau rheoli perfformiad newydd yn llywio gwelliannau'n gyflymach ac ar raddfa ehangach;

- bod dull gweithredu strategol cliriach o ran rheoli gwybodaeth a thechnoleg yn cael ei ddatblygu er mwyn cefnogi gwaith cyflenwi gweithredol a goresgyn y trefniadau gwahanol a etifeddwyd gan sefydliadau rhagflaenol y Bwrdd Iechyd.

### Mae tystiolaeth o welliant o ran gweithio mewn partneriaeth a chynnwys rhanddeiliaid, er bod heriau pellach yn dal i fodoli

**39.** Edrychodd fy ngwaith asesu strwythuredig yn 2010 ar nifer o feysydd sy'n gweithredu fel 'ffactorau galluogi' i'r defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau. Dangosodd y gwaith hwn fod y Bwrdd Iechyd yn dal i ddatblygu ei drefniadau mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth a chynnwys rhanddeiliaid.

**40.** Mae'r gwaith hwn eleni wedi canfod y canlynol:

- gwnaed cynnydd da ers y llynedd ac mae partneriaethau strategol bellach yn fwy effeithiol. Fodd bynnag, mae rhai o'r trefniadau ardal a oedd eu hangen i gefnogi gwaith partneriaeth mwy effeithiol yn dal i fod ar gamau cynnar o'u datblygiad.
- mae'r Bwrdd Iechyd wedi defnyddio arfer da cydnabyddedig i ddatblygu fframwaith priodol i gynnwys defnyddwyr, staff a'r gymuned, ond cydnabu y bydd mwy o waith datblygu yn galluogi cleifion a chymunedau i ddeall yr angen i newid gwasanaethau a helpu i lywio gwasanaethau yn y dyfodol.

## Etifeddodd y Bwrdd Iechyd drefniadau cwbl wahanol o ran y contract meddygon ymgynghorol a phrosesau cynllunio swyddi aneffeithiol mewn rhannau o'r sefydliad, ond bwriedir i drefniadau newydd fynd i'r afael â hyn

**41.** Fel rhan o'm gwaith i bennu cwmpas ar gyfer y Bwrdd Iechyd i gyflawni mwy o arbedion effeithlonrwydd wrth ddefnyddio ei adnoddau, rwyf wedi ystyried pa un a oes gan y Bwrdd Iechyd y trefniadau angenrheidiol ar waith i sicrhau bod buddiannau bwriadedig contract y meddygon ymgynghorol yn cael eu cyflawni.

**42.** Nododd fy ngwaith, ers cyflwyno'r contract meddygon ymgynghorol diwygiedig yn 2003, fod dull anghyson o gynllunio swyddi nad yw wedi'i ddatblygu'n ddigonol yn aml yn golygu nad yw'r Bwrdd Iechyd na'i feddygon ymgynghorol yn mwynhau holl fuddiannau bwriadedig y contract.

**43.** Cafodd yr archwiliad fod angen gwneud gwelliant sylweddol i'r ffordd y caiff y broses o gynllunio swyddi ei rheoli a'i defnyddio. Yn benodol, nid oedd templed safonol, nid oedd y rhan fwyaf o gynlluniau swyddi'n ddigon clir nac yn cynnwys digon o fanylion am ddyletswyddau, cyfrifoldebau, gweithgareddau a lleoliadau meddygon ymgynghorol unigol; roedd y modd y dehonglwyd sut y dosberthir gweithgareddau yn amrywio; ac nid oedd manylion am ganlyniadau disgwyliedig gweithgareddau cynllunio swyddi meddygon ymgynghorol yn cael eu cofnodi fel rheol. Hefyd, yn achos llawer o feddygon ymgynghorol, roedd angen adolygu eu cynlluniau swyddi ers cryn amser.

**44.** Ar hyn o bryd mae nifer o ffactorau yn atal y broses o gynllunio swyddi rhag cefnogi'r gwaith o foderneiddio gwasanaethau. Er enghraifft, nid oedd y broses o gynllunio swyddi wedi'i hymgorffori'n effeithiol yn y model newydd ar gyfer Grwpiau Rhaglenni Clinigol, ac felly roedd cyfleoedd i ddefnyddio'r broses honno i ddatblygu a gweithredu newidiadau i wasanaethau neu arferion gwaith, a chytuno arnynt, yn cael eu colli.

**45.** Cyflwynais argymhellion penodol a oedd â'r nod o wella'r broses o gynllunio swyddi meddygon ymgynghorol a gwireddu buddiannau contractau meddygon ymgynghorol, ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi llunio cynllun gweithredu i wella'r broses o safoni a chydgysylltu'r broses cynllunio swyddi (gan gynnwys templed safonol) a ategir gan set gytûn o egwyddorion. Mae'r Grwpiau Rhaglenni Clinigol hefyd wedi dechrau cysylltu'r broses o gynllunio swyddi meddygon ymgynghorol â phrosesau cynllunio gwasanaethau ehangach, ond mae'r gwaith hwn yn dal i fynd rhagddo. Byddaf yn adolygu cynnydd y Bwrdd Iechyd o ran gweithredu fy argymhellion dros y flwyddyn nesaf.

## Mae perfformiad o ran y theatr ac achosion dydd yn amrywio yn y Bwrdd Iechyd ac mae angen cymryd camau penodol i sicrhau bod newidiadau yn digwydd yn gyflymach

**46.** Fel rhan o'm gwaith i bennu cwmpas ar gyfer y Bwrdd Iechyd i gyflawni mwy o arbedion effeithlonrwydd wrth ddefnyddio ei adnoddau, rwyf wedi ystyried y defnydd o theatrau llawdriniaethau a chyfraddau llawdriniaeth ddydd. Cymharodd y gwaith hwn berfformiad â sampl o ymddiriedolaethau'r GIG yn Lloegr.

**47.** Dangosodd y gwaith hwn, er bod nifer o fentrau ar waith i wella'r defnydd o theatrau a chyfraddau achosion dydd ymhellach, fod amrywiadau nodedig mewn perfformiad yn lleol, ac mae angen i bob rhan o'r Bwrdd Iechyd gydweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r achosion sylfaenol. Deuthum i'r casgliad hwn oherwydd:

- Mae cyfuniad o ffactorau yn arwain at amrywiad nodedig yn lleol o ran y defnydd o theatrau a chyfraddau achosion dydd. Mae'r rhain yn amrywio yn ôl arbenigedd, safle a thîm ymgynghorol, ond fel rheol maent yn cynnwys y canlynol:
  - nifer gyfyngedig o sesiynau a ganslwyd am fod meddygon ymgynghorol ar eu gwyliau (yn enwedig yn Llandudno) yn cael eu hôl-lenwi;
  - ffactorau y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol theatrau yn arwain at ddechrau'n hwyr, megis oedi cyn i feddygon ymgynghorol gyrraedd theatrau (oherwydd teithio, neu ymrwymiadau eraill, gan gynnwys sesiynau cleifion allanol yn gor-redeg), neu oedi tra deuir o hyd i wely, neu tra bod gwiriadau cyn llawdriniaeth yn cael eu cwblhau;
  - problemau'n ymwneud â'r ffordd y caiff rhestrau theatrau eu llunio, gyda nifer o wahanol fathau ar waith yn y Bwrdd Iechyd, ar adeg yr archwiliad.
- Mae nifer o fentrau gwella, megis y prosiectau *Trawsnewid Theatrau a Gwella'n Gyflymach* yn dangos bod theatrau llawdriniaethau yn flaenoriaeth. Fodd bynnag, mae trefniadau cynllunio anghysylltiedig yn amharu ar gynnydd.

- Mae staff theatrau yn gadarnhaol ynghylch y diwylliant diogelwch yn y Bwrdd Iechyd, ond codwyd pryderon ynghylch systemau cyfathrebu, morâl a'r diwylliant tîm ac arweinyddiaeth yn Wrecsam, sydd oll yn cyfrannu at newidiadau arafach na'r hyn roeddwn yn gobeithio ei weld.

- Nid yw'r prosesau a ddilynir i gasglu a dadansoddi data theatrau yn effeithlon ac nid yw trefniadau craffu yn effeithiol o ran llywio gwelliant.

## Cymerwyd camau i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd mewn nifer o adolygiadau archwilio perfformiad blaenorol ond mae angen gwneud cynnydd pellach mewn sawl maes

**48.** Yn ystod y 12 mis diwethaf, rwyf wedi gwneud gwaith archwilio dilynol i asesu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd o ran mynd i'r afael â'r pryderon a'r argymhellion sy'n deillio o waith archwilio blaenorol mewn meysydd penodol lle y darperir gwasanaethau. Ceir crynodeb o ganfyddiadau fy narnau llai o waith dilynol yn Arddangosyn 3.

### Arddangosyn 3: Cynnydd o ran gweithredu argymhellion yr archwiliad

| Maes y gwaith dilynol | Casgliadau a chanfyddiadau allweddol yr archwiliad |
|---|---|
| Y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd ar gyfer Meddygon Iau | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran gweithredu rotas sy'n cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd ond mae angen iddo atgyfnerthu trefniadau presennol i gynnal lefelau cydymffurfio a gofal cleifion. Yn fwy penodol:<br>• mae rotas newydd a newidiadau eraill mewn arferion gwaith yn helpu'r Bwrdd Iechyd i gydymffurfio ond mae pryderon ynghylch effaith trefniadau presennol ac efallai nad yw rotas yn adlewyrchu'r union oriau sy'n cael eu gweithio;<br>• nid yw'r trefniadau llywodraethu a pherfformiad o ran cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd yn glir, er bod y Bwrdd Iechyd bellach yn cymryd camau i egluro cyfrifoldebau craidd ac atebolrwydd. |
| Gofal heb ei Drefnu (Gwaith Dilynol Rhagarweiniol) | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau gweithredu ar sail systemau cyfan mewn perthynas â gofal heb ei drefnu ond hyd yn hyn nid yw'n arwain at wella perfformiad yn gyson. |

| Maes y gwaith dilynol | Casgliadau a chanfyddiadau allweddol yr archwiliad |
| --- | --- |
| Gwasanaethau Mamolaeth | Mae tystiolaeth bod y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd da o ran gwella ei wasanaethau mamolaeth er bod angen gwneud rhagor o waith a chynnal momentwm. Nodir y rhesymau dros ddod i'r casgliad hwn isod:<br>• mae gwasanaethau mamolaeth yn flaenoriaeth uchel a gwelir trefniadau da o ran cynnwys swyddogion gweithredol ac arweinyddiaeth glinigol gref, ond mae strwythurau rheoli newydd yn dal i ddatblygu;<br>• mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella'r sail dystiolaeth ar gyfer cynllunio gwasanaethau a rheoli perfformiad, ond nid oes system wybodaeth effeithiol o hyd ac wynebir sawl her o ran llunio cynlluniau manwl i newid gwasanaethau, gan gynnwys sicrhau bod y gymuned ehangach yn deall y rhesymau dros y newid, a sut y bydd cynlluniau'r Bwrdd Iechyd yn cael eu llunio i wella gwasanaethau mamolaeth;<br>• mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno prosesau diogelwch gwell ac wedi cynyddu lefelau staffio, ond ceir rhai bylchau o hyd o ran bydwragedd ac adnoddau newydd anedig hwnt ac yma ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd;<br>• mae'r Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio'n glir ar wella'r llwybr gofal mamolaeth, er bod arferion clinigol anghyson a chyfraddau toriadau Cesaraidd uchel mewn rhai ardaloedd yn peri pryder o hyd. |

| Maes y gwaith dilynol | Casgliadau a chanfyddiadau allweddol yr archwiliad |
|---|---|
| Gwasanaethau cleifion allanol | Er bod y Bwrdd Iechyd wedi safoni'r ffordd y mae'n rhedeg ac yn rheoli gwasanaethau cleifion allanol, erys arfer clinigol yn anghyson ac mewn rhai ardaloedd yn aneffeithlon ac mae angen arweinyddiaeth gref er mwyn sicrhau perchenogaeth glinigol o'r gwasanaeth angenrheidiol a moderneiddio arfer.<br>Deuthum i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:<br>• erbyn hyn mae gan y Bwrdd Iechyd ddealltwriaeth glir o ble a sut mae'n darparu gwasanaethau cleifion allanol, gan gynnwys y staff a'r adnoddau a ddefnyddir, ond ni ddefnyddir pob clinig cymunedol yn llawn;<br>• mae'r broses weithredol, megis sut y caiff apwyntiadau cleifion eu gwneud, a sut y caiff clinigau eu rhedeg a'u cofnodi, wedi'i safoni bellach;<br>• mae gweledigaeth a model clir ar gyfer gwasanaethau cleifion allanol yn datblygu'n gyflym, sy'n cynnwys sut y bydd ardaloedd sy'n datblygu yn gweddu i wasanaethau cleifion allanol;<br>• erbyn hyn mae enghreifftiau o wasanaethau modern ac arloesol ym mhob rhan o wasanaethau cleifion allanol, er enghraifft ym maes Cardioleg (Dwyrain) rhoddir cyngor i feddygon teulu yn y swyddfa ar sut i reoli cleifion mewn gofal sylfaenol, a rhewmatoleg (ym mhob ardal).<br>Fodd bynnag:<br>• mae'r llwybr cleifion a ddefnyddir i reoli'r un cyflwr clinigol yn amrywio rhwng timau clinigol yn y Bwrdd Iechyd;<br>• heb unrhyw newidiadau i arferion clinigwyr, bydd nifer y cleifion sy'n derbyn ôl-driniaeth sydd angen dyddiadau adolygu clinigol yn parhau ar y lefel bresennol (tua 32,000);<br>• er bod arweinyddiaeth glinigol ar waith drwy Benaethiaid Staff, a Chyfarwyddwyr Clinigol, nid yw eto'n sicrhau'r newid angenrheidiol ar lefel weithredol mewn gwasanaethau cleifion allanol;<br>• er bod prosesau cynllunio swyddi ac archwilio clinigol yn darparu ffactorau ychwanegol i sbarduno newid, nis defnyddir yn gyson ym mhob arbenigedd. |

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol | Mehefin 2011 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2011 |
| Barn ar ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan | Awst 2011 |
| Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol - Adroddiad Manwl | Medi 2011 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol Cryno | Medi 2011 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Contract y Meddygon Ymgynghorol | Mehefin 2011 |
| Theatrau Llawdriniaethau a Llawdriniaethau Achosion Dydd | Gorffennaf 2011 |
| Gwaith Dilynol ar Wasanaethau Mamolaeth | Awst 2011 |
| Gwaith Dilynol Rhagarweiniol ar Ofal heb ei Drefnu | Awst 2011 |
| Gwaith dilynol ar y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd | Medi 2011 |
| Ôl-driniaeth Cleifion Allanol | Tachwedd 2011 |
| Gwaith Dilynol ar Asesiadau Strwythuredig | Tachwedd 2011 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Amlinelliad o Waith Archwilio 2011 | Mawrth 2011 |

Mae nifer o archwiliadau o berfformiad yn mynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd o hyd. Nodir y rhain isod ynghyd â'r dyddiadau amcangyfrifedig ar gyfer cwblhau'r gwaith sy'n dynodi y bydd yr holl waith archwilio perfformiad a danlinellwyd yn fy Amlinelliad o Waith Archwilio ar gyfer 2011 yn cael ei gwblhau erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2011-12.

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig |
|---|---|
| Parhad Busnes/Adfer mewn Argyfwng TGCh | Ionawr 2012 |
| Rheoli Cyflyrau Cronig | Chwefror 2012 |
| Gofal heb ei Drefnu - Gwaith Dilynol Manwl | Chwefror 2012 |
| Ansawdd Data TGCh | Chwefror 2012 |
| Ymgysylltu clinigol, gan gynnwys cwmpas lleol ychwanegol | Mawrth 2012 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Nododd yr Amlinelliad o Waith Archwilio ar gyfer 2011 ffi archwilio arfaethedig o £507,013 (ac eithrio TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol yn unol â'r ffi a nodwyd yn yr amlinelliad.

Yn ogystal â'r ffi a nodir uchod, roedd y ffi am y gwaith archwilio a wnaed o ran y gwasanaethau a rennir a ddarperir i'r Bwrdd Iechyd gan y Ganolfan Gwasanaethau Busnes yn £22,618.

Yn ystod y flwyddyn, adolygais y gwaith archwilio perfformiad yn Strategaeth Archwilio 2010 a oedd heb ei wneud o hyd. Arweiniodd hyn at ad-daliad o £29,260 (ac eithrio TAW) o ffi archwilio 2010, fel yr amlinellwyd mewn llythyr i'r Prif Weithredwr ym mis Gorffennaf 2011. Dangosir y prosiectau archwilio perfformiad yr effeithiwyd arnynt isod.

| Pwnc | Statws |
|---|---|
| Parhad Busnes/Adfer mewn Argyfwng TGCh (gwaith 2010) | Ad-daliad llawn, a bellach yn rhan o'n cynllun archwilio ar gyfer 2011. |
| Gwaith Dilynol ar Wasanaethau Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc | Ad-daliad llawn, oherwydd fe'i disodlwyd gan astudiaeth Gwerth am Arian Genedlaethol. |
| Prosiect lleol ar Ofal Iechyd Parhaus | Ad-daliad llawn, oherwydd fe'i disodlwyd gan astudiaeth Gwerth am Arian Genedlaethol. |
| Prosiect TGCh lleol: Gweithredu System Gweinyddu Cleifion yn ardal ganolog hen Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Cymru (dygwyd ymlaen o'm strategaeth archwilio perfformiad ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Cymru yn 2009) | Ad-daliad llawn, gan fod y broses o weithredu system newydd yn y ganolfan wedi'i gohirio tan 2013. |

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU


Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk